
Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Daliad Cymorth Profedigaeth**

**Hawdd i'w Ddarllen**




Ein cyfeirnod: **BSP2WER** 09/23

# Cynnwys


1 Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2





**Taliadau a budd-daliadau eraill**

Tudalen 5

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau


Arian gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw Taliad Cymorth Profedigaeth.




Mae'n helpu pobl y mae eu gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner wedi marw yn ddiweddar.

**BSP**

Weithiau gelwir y Taliad Cymorth Profedigaeth yn BSP.




Gall pobl wneud cais hyd yn oed os oes ganddynt gynilion neu os ydynt yn gweithio.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych am y taliadau a sut i wneud cais.

Am ragor o daflenni BSP Hawdd i'w Ddarllen, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read BSP**.

# 2 Taliadau a budd-daliadau eraill

**BSP**

Mae swm y Taliad Cymorth Profedigaeth a gewch yn dibynnu ar eich perthynas â'r person a fu farw.




Mae hefyd yn dibynnu ar pryd rydych yn gwneud eich cais.




Mae'r taliad cyntaf o BSP yn swm mwy i'r arfer, a elwir weithiau'n 'gyfandaliad'.

Caiff hyn ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.




Byddwch wedyn yn cael taliadau misol llai i'r un cyfrif.




Telir taliadau misol am hyd at 18 mis.



Pan fyddwch yn dechrau cael BSP, rhaid i chi ddweud wrth y swyddfa sy'n talu unrhyw fudd-daliadau eraill a gewch.

**1**

**blwyddyn**

Am y flwyddyn gyntaf, ni fydd eich BSP yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill a gewch.



**1+**

**blwyddyn**

Ar ôl blwyddyn, os oes gennych unrhyw arian dros ben o'ch cyfandaliad, gallai hyn effeithio ar hawliadau budd-dal eraill.

I ddarganfod y cyfraddau BSP cyfredol, ewch i
[www.gov.uk/bereavement-support-payment/what-youll-get](http://www.gov.uk/bereavement-support-payment/what-youll-get)

# Sut i wneud cais




Gallwch wneud cais am BSP:

- ar-lein
- dros y ffôn
- drwy'r post.





Cyn gwneud cais, mae angen i chi gael rhywfaint o ddogfennau a gwybodaeth at ei gilydd.




Mae'n cynnwys:

- Eich rhif Yswiriant Gwladol (YG), pe bai gennych
- Manylion banc neu gymdeithas adeiladu
- Dyddiad marw eich partner
- Rhif YG eich partner, pe bai ganddynt.

I wneud cais ar-lein ewch i www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth/sut-i-wneud-cais a dewiswch **Dechrau nawr**.




Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch ddefnyddio'r un gwasanaeth ar-lein.




Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon ac eisiau gwneud cais dros y ffôn neu'r post, mae ffordd wahanol o wneud hyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i
[www.nidirect.gov.uk/articles/bereavement-support-payment](http://www.nidirect.gov.uk/articles/bereavement-support-payment)

## Gwneud cais dros y ffôn



I wneud cais dros y ffôn, ffoniwch y llinell gymorth BSP ar:

Ffôn: **0800 731 0453**

Ffôn testun: **0800 731 0456**



Ar gyfer llinell gymorth BSP yn Saesneg ffoniwch:

Ffôn: **0800 151 2012**

Ffôn testun: **0800 731 0464**



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 731 0453**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.

I ddarganfod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth ar ffôn symudol, llechen neu gyfrifiadur, ewch i www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth/sut-i-wneud-cais



Os ydych yn byw dramor, ffoniwch y Ganolfan Bensiwn Ryngwladol.

Ffôn: **+44 191 206 9390**

Mae’r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

## Gwneud cais trwy’r post



Adran Gwaith a Phensiynau

Taliad Cymorth Profedigaeth

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, e-bost, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 169 0310** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

**Trin pobl yn deg**

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin poblyn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am ‘Equality’ yn **www.gov.uk**

**Beth yw Taliad Cymorth Profedigaeth**

Mae Taliad Cymorth Profedigaeth yn rhoi cefnogaeth ariannol i bobl am gyfnod ar ôl

I wneud cais drwy’r post, mae angen i chi lenwi ffurflen gais Taliad Cymorth Profedigaeth.

I lawrlwytho ffurflen gais BSP, ewch i [www.gov.uk/government/publications/bereavement-support-payment-claim-form.cy](https://www.gov.uk/government/publications/bereavement-support-payment-claim-form.cy)



Mae angen i chi argraffu’r ffurflen hon a’i chwblhau gyda phen.

Llofnodwch a rhowch ddyddiad ar eich ffurflen cyn ei hanfon.



Anfonwch eich ffurflen gyflawn i:

Bereavement Support Payment
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 2BS

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

I gael ffurflen gais wag i'w hanfon atoch yn y post, cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith agosaf.

I ddod o hyd i'ch swyddfa agosaf, ewch i
find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am BSP, ewch i
www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth